# Astudiaeth Amaethyddol Addasu i'r Hinsawdd – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Mentera i gynnal astudiaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid, 'Ffermio i'r Dyfodol', mewn perthynas ag addasu i'r hinsawdd ym myd amaeth. Nod yr astudiaeth hon yw ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall sut mae ffermwyr yn addasu i'r hinsawdd sy'n newid yng Nghymru.

Fel rhan o'r astudiaeth hon, bydd Mentera yn cynnal gweithdai yn y cnawd ac ar-lein gan ddefnyddio'r platfform Microsoft Teams.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer y gwaith ymchwil. Fodd bynnag, bydd Mentera yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r gweithdai a'r ffurflenni ar-lein, ac yn gwneud y data crai yn ddienw cyn iddynt gael eu rhannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad dienw a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yng nghwmni Mentera yw Siwan Howatson.
Cyfeiriad e-bost: siwan.howatson@mentera.cymru
Rhif ffôn: 07399 783 398

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol sydd gennym ac o ble y cawn y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr'.

Rydych chi wedi cyrchu'r ffurflen gofrestru ar-lein i fynegi eich diddordeb mewn cymryd rhan yn yr astudiaeth hon drwy un o'r dulliau canlynol drwy wefan Mentera, a hyrwyddwyd:

- Drwy hysbyseb yn y *Farmers Guardian*
- Drwy daflen a ddosbarthwyd yn nigwyddiadau Cyswllt Ffermio
- Drwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Drwy staff Mentera

Bydd angen eich enw llawn, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif cyswllt ar Mentera i brosesu eich cofrestriad. Bydd Mentera yn defnyddio'ch manylion i gysylltu â chi i drefnu eich cyfranogiad mewn gweithdy a darparu unrhyw fanylion perthnasol am y gweithdy.

Yn ystod y gweithdy, ni fyddwn yn casglu unrhyw wybodaeth bersonol ychwanegol heblaw eich llun os ydych chi'n fodlon i ni recordio'r gweithdy ar ffurf fideo.

Mae cymryd rhan yn wirfoddol ac os nad ydych chi'n dymuno cymryd rhan, neu gael negeseuon atgoffa ar unrhyw gam o'r gwaith ymchwil, yna anfonwch e-bost at siwan.howatson@mentera.cymru a bydd eich manylion yn cael eu dileu. Dim ond at ddibenion yr astudiaeth hon y bydd Mentera yn defnyddio'ch manylion cyswllt.

Efallai y bydd angen i ni recordio'r gweithdy am resymau gweithredol. Os bydd, byddwn yn gwneud hyn yn glir i chi cyn i'r gweithdy ddechrau, a chewch gyfle i ddweud wrthym os nad ydych chi'n hapus i'r drafodaeth gael ei recordio. Dim ond lle mae pob aelod yn hapus i hyn ddigwydd y caiff gweithdai eu recordio. Os caiff y gweithdy ei recordio, bydd data personol yn cael eu tynnu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd recordiadau'n cael eu dileu unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Os na chaiff y drafodaeth ei recordio, ni fydd data personol yn cael eu cynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a gaiff eu paratoi yn ystod y drafodaeth neu wedi hynny.

Os bydd gennych ymholiad neu gŵyn ac yn rhoi data personol wrth ofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at ddim ond y swyddog perthnasol ac yna'n dileu'r wybodaeth o ddata'r gwaith ymchwil.

## Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'ch data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir ei gweithredu am ei gallu i gyflawni ei blaenoriaethau. Gallai'r wybodaeth a gesglir yn y gwaith ymchwil hwn, er enghraifft, gael ei defnyddio i lywio polisi ar weithgarwch addasu i'r hinsawdd ym myd amaeth, a allai gynnwys helpu ffermwyr i ddod yn fwy cydnerth i newid hinsawdd.

## Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i Mentera bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer gyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn a all gyrchu'r data. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd Mentera yn defnyddio'r data. Mae gan Mentera ardystiad Cyber Essentials Plus.

Wrth gynnal gweithdai a phrosesu data, bydd Mentera yn defnyddio'r rhaglenni meddalwedd canlynol: Microsoft 365, Copilot ac NVivo. Rydym wedi sicrhau bod Microsoft 365 yn cydymffurfio â GDPR y DU ac yn cwrdd â'n disgwyliadau o ran diogelwch unrhyw ddata a gesglir drwy'r feddalwedd. Ni fydd unrhyw ddata personol yn cael eu prosesu gan ddefnyddio Copilot ac NVivo.

Mae gan Mentera weithdrefnau i ddelio ag unrhyw dor diogelwch data a amheuir. Os bydd amheuaeth o dor diogelwch, bydd Mentera yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru a fydd, yn ei thro, yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd Mentera yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Bydd Mentera yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol yn cael eu dileu gan Mentera ymhen tri mis i ddiwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

## Hawliau unigol

O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a roddwch fel rhan o'r astudiaeth hon. Mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data eich hun;
- I ni gywiro gwallau yn y data;
- I wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu (mewn rhai amgylchiadau);
- I 'ddileu' eich data (mewn rhai amgylchiadau); ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer SK9 5AF. Ffôn: 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

## Gwybodaeth Bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os ydych chi am arfer eich hawliau gan ddefnyddio Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, cysylltwch â'r canlynol:

Enw: Frances Gillett
Cyfeiriad e-bost: frances.gillett@gov.wales
Rhif ffôn: 0300 0622 469

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.